Hunanwerthusiad Blynyddol o Wasanaethau Plant a Phobl Ifanc yr Awdurdod Addysg Lleol

2011-12

Cwestiwn Allweddol 1 Pa mor dda yw'r deilliannau?

1.1 Safonau

Perfformiad – Da

Nodweddion da:

- Mae perfformiad ledled yr awdurdod yng Nghyfnodau Allweddol 2, 3 a 4 yn gwella ac yn cymharu'n ffafriol â Chymru gyfan. Mae'r perfformiad cryfaf yng Nghyfnod Allweddol 4, yn bennaf ar gyfer cymwysterau lefel 2 ac yn enwedig yn y pynciau craidd.
- Fodd bynnag, mae nifer o ysgolion cynradd ac uwchradd o hyd lle mae angen rhagor o welliant, a hefyd rhai grwpiau o ddisgyblion sy'n tanberfformio, e.e. y rhai dan anfantais (derbyn prydau ysgol am ddim) a bechgyn.
- Mae deilliannau pobl ifanc nad ydynt yn cael eu haddysgu yn yr ysgol yn UCD CA4, EOTAS a Llwybrau'n dda.
- Mae gostyngiad sylweddol mewn PDG sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig yn dangos targedu adnoddau'n llwyddiannus i gefnogi PDG i wella perfformiad.
- Mae canran y disgyblion o'r lleiafrifoedd ethnig sy'n cyflawni'r DPC, y Trothwy Lefel 2 a'r Trothwy Lefel 1 yn neilltuol ac yn gyson uwch na holl ddisgyblion Abertawe ac yn uwch na chanran Cymru gyfan.
- Mae'r gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant yn parhau trwy ganolbwyntio ar ymyriad.
- Mae nifer y bobl ifanc sy'n cyflawni achrediad allanol ar gyfer dysgu anffurfiol yn cynyddu.
- Mae'r gefnogaeth a roddir i lythrennedd a rhifedd wedi cyfrannu'n gadarnhaol i'r gwelliant mewn perfformiad ym mhob cyfnod allweddol.
- Mae darparu data a dadansoddiad cynhwysfawr, ynghyd â hyfforddiant i'w defnyddio, wedi helpu ysgolion i ddiwallu anghenion disgyblion ac wedi cyfrannu at godi safonau.

Meysydd i'w Datblygu:

- Rhoi Strategaeth y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol (SGGYIRh) ar waith er mwyn gwella deilliannau addysgol a lles i'r holl blant a phobl ifanc.
- Parhau i gynyddu'r gyfradd gwelliant ym mherfformiad CA2.
- Parhau i gulhau'r bwlch mewn a rhwng ysgolion sy'n perfformio orau a gwaethaf.
- Gwella deilliannau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal.
- Gwella perfformiad disgyblion dan anfantais (derbyn prydau ysgol am ddim) a bechgyn.
- Parhau i drawsnewid addysg ôl-16 a hyfforddiant.

- Parhau i herio arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion i fynd i'r afael â gwendidau a chodi safonau.
- Datblygu gwaith rhanbarthol ymhellach i gynnal y gallu i wella yn y dyfodol.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae hanes o welliant parhaol i ddeilliannau dysgwyr.
- Bydd y strategaeth yn rhoi mwy o gysondeb wrth fesur ansawdd mewn ysgolion.

Rhwystrau:

- Bydd ansicrwydd yn y tymor byr ynghylch newidiadau i arfer trwy ddatblygiad rhanbarthol
- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

1.2 Lles

Perfformiad – Da

- Mae'r awdurdod lleol yn defnyddio data'n dda i weithio gydag ysgolion a phartneriaid i greu'r Proffil Asesu Bregusrwydd a'r Tîm am y Teulu i nodi'r plant a phobl ifanc sydd yn y perygl mwyaf o ran eu lles a'u deilliannau dysgu. Mae plant a phobl ifanc o'r ardaloedd â'r amddifadedd mwyaf yn cael cefnogaeth sylweddol wedi'i thargedu trwy'r Rhaglen Atal ac Ymyrryd Cynnar.
- Mae presenoldeb wedi gwella ymhlith disgyblion a dargedwyd trwy ymyriad penodol.
- Bu tuedd ar i lawr dda mewn gwaharddiadau parhaol a sefydlog sy'n cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg yng Nghymru o ganlyniad i newid diwylliannol (Arfer Adferol, darpariaeth EOTAS, trosglwyddo wedi'i reoli a hyfforddiant ymddygiad) a chefnogaeth wedi'i thargedu.
- Mae nifer y bobl 16 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant wedi parhau i ostwng trwy ymyriad a dargedwyd ac olrhain pobl ifanc. Mae hyn wedi'i gydnabod yn arfer da ledled y wlad.
- Mae gwasanaeth cwnsela Abertawe'n fodel o arfer da. Mae pobl ifanc sy'n defnyddio gwasanaethau cwnsela'n cael cefnogaeth neilltuol gan y gwasanaeth cwnsela mewn ysgolion a lleoliadau cymunedol gan arwain at lefelau lles sylweddol uwch.
- Mae'r rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn dangos ymagwedd dda at eu hiechyd corfforol o ganlyniad i amrywiaeth o wasanaethau a chefnogaeth gan yr awdurdod lleol a'i bartneriaid.
- Mae plant a phobl ifanc, yn enwedig mewn ysgolion, yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi trwy'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ganddynt i ddylanwadu'n effeithiol ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

- Mae agweddau cadarnhaol at ddysgu'n ganlyniad amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu a ddarperir trwy gerddoriaeth, celfyddydau creadigol a pherfformio, Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe (FfAAA), Prifysgol y Plant (PP), Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol (AAABA) a Gwobr Dug Caeredin.

Meysydd i'w Datblygu:

- Parhau i wella deilliannau'r plant a phobl ifanc mwyaf difreintiedig
- Gwella presenoldeb ymhellach
- Parhau â gwaith partneriaeth i leihau nifer y bobl 17 oed neu'n hŷn nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant, p'un ai ydynt yn cael eu haddysgu yn yr ysgol ai peidio.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae aildrefnu'r gwasanaethau atal ac ymyrryd cynnar i blant a phobl ifanc wedi rhoi'r awdurdod lleol a'i bartneriaid mewn sefyllfa gryfach fyth i gydweddu gwasanaethau mewn ffordd gydlynol ar gyfer anghenion unigol a gwella deilliannau.
- Mae'r Bartneriaeth PPI yn defnyddio'r trosglwyddiad o Gymorth i Deuluoedd yn Gyntaf i ddefnyddio cyllid yn fwy strategol i sicrhau adnoddau a fydd yn targedu plant a phobl ifanc gyda'r angen mwyaf.

Rhwystrau:

- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

2.1 Cefnogaeth i Wella Ysgolion

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae ysgolion yn cydnabod bod gan yr awdurdod ffocws clir ar y dysgwr ac y gall ddangos y bodlonir anghenion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Mae'r gefnogaeth a'r her effeithiol wahaniaethol a ddarperir gan Ymgynghorwyr Datblygu Ysgolion gan arwain at wella ysgolion i'w gweld yn amlwg yn y broses o gwblhau'r proffiliau ysgol ac yn neilliannau arolygon.
- Mae cefnogaeth ranbarthol lwyddiannus ar gyfer datblygu'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion ac arweinyddiaeth systemau i ysgolion.
- Mae amrywiaeth ardderchog y data a'r dadansoddi ynghyd â'r hyfforddiant i'w defnyddio, wedi cyfrannu at godi safonau.
- Mae'r gefnogaeth a roddir i lythrennedd a rhifedd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at welliant yn y DPC sy'n dangos tuedd ar i fyny ar draws yr holl gyfnodau allweddol, gyda gwelliant arbennig yn CA4.
- Mae ansawdd neilltuol y gefnogaeth arbenigol a ddarperir gan EMLAS wedi cael effaith sylweddol ar ymgysylltiad a deilliannau dysgwyr.
- Mae defnyddio SGGYIRh a gweithdrefnau cysylltiedig wedi bod yn effeithiol, gan gynnwys targedu ysgolion sy'n peri pryder.
- Mae defnyddio data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol yn ogystal â phroses proffil ysgol Abertawe sefydledig wedi galluogi'r awdurdod lleol i nodi ysgolion a thargedu cefnogaeth yn effeithiol yn gymesur ag angen.
- O ganlyniad i gefnogaeth ddwys gan yr awdurdod lleol, cafodd y ddwy ysgol gynradd y nodwyd bod angen gwelliant sylweddol arnynt eu tynnu allan o'r categori mewn un flwyddyn.
- Mae defnyddio arweinwyr system o Abertawe a'r tu allan iddi wedi gwneud cyfraniad sylweddol i wella arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgol mewn Mesurau Arbennig.
- Mae datblygiad effeithiol Llwybrau Dysgu 14-19 yn sicrhau amrywiaeth eang o ddarpariaeth i'r holl bobl ifanc fel a ddangosir gan y gostyngiad yn nifer y disgyblion nad ydynt yn ennill cymhwyster cydnabyddedig a'r gwelliant yn y Trothwy Lefel 1 a'r sgôr pwyntiau ehangach.
- Mae partneriaethau effeithiol yn Abertawe, a chydag awdurdodau cyfagos, wedi sicrhau amrywiaeth eang o ddewis a chyfleoedd addysg/hyfforddiant i fyfyrwyr ôl-16, gan gynnwys yn Gymraeg.
- Mae Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe (PACA) wedi rhoi cefnogaeth dda i'r iaith Gymraeg mewn addysg ac mae'n dangos gwaith partneriaeth da.

Meysydd i'w Datblygu:

- Parhau i gynyddu'r gyfradd gwelliant ym mherfformiad CA2.
- Parhau i gulhau'r bwlch rhwng ysgolion sy'n perfformio orau a gwaethaf.

- Gwella deilliannau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal.
- Parhau i werthuso effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion a chefnogi ysgolion i fynd i'r afael â gwendidau.
- Gwella llywodraethu mewn ysgolion trwy recriwtio llywodraethwyr â'r gallu i herio a chefnogi arweinyddiaeth a rheolaeth mewn ysgolion a datblygu prosesau ymgysylltu gwell gyda chyrff llywodraethu.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Bydd y strategaeth yn sicrhau bod y gefnogaeth a'r her briodol yn parhau i gael eu darparu yng ngoleuni newidiadau cwricwlwm ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Bydd y strategaeth yn rhoi mwy o gysondeb wrth fesur ansawdd mewn ysgolion a darparu cefnogaeth a dargedwyd lle bo'i hangen.
- Mae rhwydweithiau dysgu a chymunedau dysgu proffesiynol (CDP) yn datblygu'n lleol ac yn rhanbarthol.
- Mae prosesau llywodraethu a rheoli perfformiad mwy effeithiol mewn perthynas â rhoi Cynllun Plant a Phobl Ifanc 2011-14 mwy penodol ar waith.

Rhwystrau:

- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

2.2. Cefnogaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae creu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer ALIICh sy'n cynnwys addysg ac iaith yn cynrychioli nodwedd neilltuol gydag ysgolion yn cael dyraniad o amser sy'n cynnwys athrawon arbenigol ar gyfer ALIICh a therapyddion lleferydd ac iaith.
- Mae'r mecanweithiau olrhain arolwg gyda dilyniant wrth olrhain CAA ysgolion, a chreu offeryn monitro ar ôl dirprwyo'r gyllideb ar gyfer anghenion difrifol a chymhleth yn ddatblygiadau neilltuol.
- Mae deilliannau cadarnhaol i blant a phobl ifanc ag ADY a ariennir trwy'r arolwg yn y brif ffrwd, y rhai a roddwyd mewn CAA a'r rhai sy'n mynd i ysgolion arbennig oherwydd darpariaeth o safon.
- Mae lefel boddhad rhieni'n uchel fel a ddangosir gan nifer isel tribiwnlysoedd dros gyfnod helaeth.
- Mae nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd yn barhaol yn isel; mae ysgolion yn cael eu cefnogi i reoli plant ag ACEY trwy amrywiaeth o wasanaethau a phrosesau cefnogi.
- Mae anghenion plant a phobl ifanc ag awtistiaeth, ALIICh ac ADC yn cael eu bodloni trwy hyfforddiant staff effeithiol iawn, rhoi'r strategaethau ar waith a chreu gwasanaeth ar y cyd ar gyfer ALIICh sy'n cynnwys addysg ac iechyd.

- Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig a gefnogir gan EMLAS yn cyrraedd safonau neilltuol. Erbyn diwedd Cyfnod Allweddol 4, mae'r rhan fwyaf wedi perfformio'n well yn gyson na holl ddisgyblion Abertawe a Chymru ar y DPC, Trothwy Lefel 2 a Throthwy Lefel 1.
- Mae gwasanaethau cefnogi ADY yn cynnig mewnbwn ag enw da, mae galw mawr amdanynt ac mae ganddynt gyfraddau hawlio ardderchog ac maent yn werth da am arian.
- Mae lefelau uchel cyson o gynhwysiad yn cael eu cynnal a'u cadw trwy gynnig cefnogaeth i blant yn y brif ffrwd, ac mae nifer isel o leoliadau y tu allan i'r sir.
- Diwellir anghenion plant yn y blynyddoedd cynnar o ganlyniad i system rhybudd cynnar a ddatblygwyd gydag iechyd gan arwain at gynllunio effeithiol i ddisgyblion unigol, a'r ddarpariaeth gyffredinol.
- Mae plant a phobl ifanc â'r anghenion mwyaf difrifol sy'n dechrau yn yr ysgol yn cael datganiadau a'u cefnogi wrth ddechrau yn yr ysgol.
- Crëwyd cysylltiadau effeithiol iawn gan y Prosiect UPOSS ac arbenigedd staff ysgolion arbennig a CAA i ehangu'r Tîm Cynhwysiad.
- Mae rhoi DPP achrededig llwyddiannus i gynorthwywyr addysgu a staff cefnogi ar waith a'i gefnogi wedi sicrhau datblygu sgiliau da iawn a dealltwriaeth o ADY.
- Cafwyd cydnabyddiaeth ein bod yn awdurdod lleol sy'n cefnogi dyslecsia.
- Mae hyrwyddo gwefan Google *Abertawe Gynhwysol* yn ogystal â'r wefan gynhwysiad yn darparu system gefnogaeth gref sy'n annog ysgolion i gysylltu a rhannu cyfleusterau ac arfer da ar y cyd i effeithio ar ddeilliannau disgyblion.

Meysydd i'w Datblygu:

- Datblygu modelau ariannu ysgolion ymhellach, (e.e. dirprwyo'r gyllideb anghenion difrifol a chymhleth i ysgolion) fel y gallant fodloni anghenion mewn ffordd hyblyg a chost-effeithiol.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Bydd y systemau olrhain AAA i fonitro deilliannau disgyblion yn cefnogi ysgolion yn yr ymgyrch i wella deilliannau disgyblion.
- Bydd yr offeryn monitro ar gyfer disgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth a disgyblion a ariennir trwy arolwg yn sicrhau targedu effeithiol yn ogystal â monitro deilliannau.
- Bydd adolygu a diweddaru'r Cynllun Datblygu AAA yn rheolaidd yn parhau i ddiwallu anghenion disgyblion unigol ag anghenion addysgol arbennig.

Rhwystrau:

- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

2.3 Hyrwyddo cynhwysiad cymdeithasol a lles

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae gwaith gyda throseddwyr ifanc yn neilltuol. Mae troseddwyr ifanc yn dychwelyd i addysg o ganlyniad i gysylltu a chynllunio effeithiol. Mae cefnogaeth bwrpasol i droseddwyr ifanc yn yr ysgol ac mewn lleoliadau diogel sy'n enghraifft o arfer da. Mae'r *Biwro Ieuenctid,* sy'n defnyddio ymagweddau adferol i osgoi troseddoli pobl ifanc ac atal aildroseddu, hefyd wedi'i chydnabod fel arfer da ar draws Cymru a Lloegr .
- Mae deilliannau gwell i bobl ifanc a addysgir yn rhywle heblaw yn yr ysgol o ganlyniad i ddarpariaeth o safon mewn Llwybrau EOTAS ac UCD.
- Mae Hyfforddiant Cyflogaeth yn rhoi cefnogaeth dda i ysgolion, disgyblion a addysgir yn rhywle heblaw yn yr ysgol a darpariaeth 14-19.
- Mae gan yr awdurdod lleol ddata helaeth ar berfformiad addysg yr holl blant sy'n derbyn gofal. Mae deilliannau plant sy'n derbyn gofal wedi gwella trwy ddefnyddio adnoddau a dargedwyd a gwaith Tîm Addysg PDG.
- Mae EMLAS yn darparu cefnogaeth arbenigol, datblygiad proffesiynol a hyfforddiant o safon. Mae plant a phobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn cael eu cynnwys yn llawn ac maent yn cyflawni safonau uchel iawn.
- Bu tuedd ar i lawr mewn gwaharddiadau parhaol a chyfnod sefydlog sy'n cymharu'n dda ag awdurdodau tebyg yng Nghymru. (2010).
- Mae trefniadau effeithiol ynghylch trosglwyddo a reolir wedi'u trafod ag ysgolion.
- Mae'r awdurdod lleol yn cydymffurfio'n llwyr wrth gynnig 25 awr o addysg i blant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol.
- Cefnogir ysgolion i reoli ymddygiad yn effeithiol trwy amrywiaeth cynhwysfawr o arweiniad a chefnogaeth.
- Mae protocol effeithiol sy'n sefydlu perthnasoedd gwaith agos rhwng GLlA ac EMLAS.
- Mae swyddog amddiffyn a diogelu plant yn gweithio gydag ysgolion a gwasanaethau cefnogi'n uniongyrchol, a hefyd yn cyflwyno hyfforddiant pwrpasol, gan gynnal gwaith da ym maes amddiffyn a diogelu plant.
- Mae'r awdurdod lleol yn darparu cefnogaeth addysgol dda a phriodol i blant a phobl ifanc diamddiffyn.
- Trwy gefnogaeth a dargedwyd, mae cymhariaeth ffafriol â Chymru ar ddeilliannau achrededig a chofnodedig i bobl ifanc trwy'r gwasanaeth ieuenctid.
- Mae cyfleoedd hyfforddiant gwaith ieuenctid o safon yn cael eu darparu, eu defnyddio gan y sectorau statudol a gwirfoddol, o lefelau cyflwyno i lefelau gradd.
- Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) o ganlyniad i waith a dargedwyd gyda phobl ifanc sy'n NEET neu'n debygol o fod yn NEET.

Meysydd i'w Datblygu:

- Datblygu darpariaeth EOTAS ymhellach i ddiwallu anghenion.
- Ad-drefnu'r Gwasanaeth Addysg Teithwyr i ddiwallu anghenion a nodwyd.

- Gwella presenoldeb ymhellach trwy dargedu ysgolion a disgyblion â phresenoldeb gwael.
- Lleihau gwaharddiadau ymhellach mewn ysgolion a dargedwyd.
- Sefydlu monitro darpariaeth i ddisgyblion ag anghenion difrifol a chymhleth gydag ysgolion yn dilyn dirprwyo arian un i un.
- Parhau â'r gwaith o leihau nifer y bobl NEET trwy dargedu cefnogaeth i'r rhai â'r her fwyaf.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae cynnydd parhaol tuag at wasanaeth cymwysedig mewn Llwybrau EOTAS gan sicrhau cronfa o sgiliau da i weithio gyda grŵp o bobl ifanc heriol.
- Mae gwella data plant sy'n derbyn gofal y Gwasanaethau Cymdeithasol, trwy waith ar y cyd gan reolwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg, wedi arwain at fwy o hyder yn y data presennol.
- Mae gwaith partneriaeth effeithiol rhwng y Gwasanaeth Ieuenctid a darparwr Cymraeg (Menter Iaith) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i estyn cyrhaeddiad y Gwasanaeth Ieuenctid ymhellach.
- Bydd datblygu Fforwm Ieuenctid Abertawe'n effeithio ar ymrwymiad pobl ifanc mewn penderfyniadau lleol allweddol.
- Bydd prosesau sefydledig ar gyfer gwaith partneriaeth gydag asiantaethau partner, gan gynnwys paneli amlasiantaeth (AAA, Parhauster, Bywyd Sefydlog) a datblygu model cefnogi '4 Site' yn gwella cynllunio a chefnogaeth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc diamddiffyn, gan gynnwys Plant mewn Angen a Phlant sy'n Derbyn Gofal.

Rhwystrau:

- Mae pwysau cyllideb yn berygl i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.
- Galw cynyddol gan ysgolion am ddarpariaeth EOTAS gydag effaith bosibl ar y gyllideb addysg.

2.4: Mynediad a lleoedd ysgol

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae deilliannau a manteision y rhaglen trefniadaeth ysgolion AoS 2020 bresennol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus.
- Mae gan yr awdurdod lleol hanes profedig o wneud penderfyniadau anodd ar gynigion trefniadaeth ysgolion.
- Gellir dangos polisi clir yr awdurdod lleol i ail-fuddsoddi'r adnoddau a ryddhawyd trwy broses AoS 2020 yn y rhaglen.

- Mae'r fframwaith asesu cynhwysfawr a bennwyd yn y Cynllun Rheoli Asedau wedi cynnal Rhaglen Amlinellol Strategol (RhAS) yr awdurdod. Mae rhannu'r data craidd cynhwysfawr a chadarn â rhanddeiliaid wedi sicrhau tryloywder ac wedi'i gydnabod yn fodel o arfer da.
- Mae'r ymgysylltiad agos â rhanddeiliaid, wedi'i ysgogi gan y Grŵp Llywio AoS 2020 a'r Fforwm Rhanddeiliaid, a grwpiau penaethiaid a llywodraethwyr ehangach, yn parhau i ychwanegu gwerth at y deilliannau a'r anghenion ac opsiynau buddsoddi â blaenoriaeth a nodwyd, fel a adlewyrchwyd yn y RhAS.
- Mae'r gymeradwyaeth gynhwysfawr o'r opsiynau a nodwyd wedi galluogi datblygu strategaeth radical a chydlynol, a fydd yn cefnogi gweddnewid addysgol mewn ysgolion.
- Mae Llywodraeth Cymru (LlC) yn nodi Abertawe'n enghraifft o arfer da ym maes ymgynghori a'r weithdrefn hysbysiad statudol ynghylch ysgolion.
- Mae hanes da o ddileu lleoedd dros ben yn y sector Saesneg.
- Bu cynnydd sylweddol yn narpariaeth gynradd Gymraeg, gan ragori ar y targedau a bennwyd yn y Cynllun Addysg Gymraeg.
- Cafwyd mynediad llwyddiannus i fuddsoddiad cyfalaf sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf i gefnogi Dechrau'n Deg a'r Cyfnod Sylfaen, gweddnewid yr amgylchedd dysgu mewn dwy ysgol uwchradd a pharhau â'r rhaglen waith i wella cyflwr ac addasrwydd.
- Mae canran uchel o ddisgyblion yn cael yr ysgolion o'u dewis yn y broses dderbyniadau.
- Mae cwmpas y Gwasanaeth Ieuenctid wedi'i estyn i ardaloedd gwledig pellennig gyda phrosiect ieuenctid teithiol.
- Mae gwaith partneriaeth effeithiol wedi sicrhau bod cynlluniau priodol i ddatblygu'r Blynyddoedd Cynnar yn parhau i gael eu cyflwyno.
- Mae datblygiad llwyddiannus parhaol y rhaglen Dechrau'n Deg wedi dangos gwelliant mewn agweddau at ddysgu a pharatoi ar gyfer yr ysgol.

Meysydd i'w Datblygu:

- Parhau i leihau lleoedd ysgol dros ben.
- Parhau i fodloni'r cynnydd mewn galw am ddarpariaeth addysg Gymraeg.
- Datblygu'r Achosion Busnes Amlinellol yn unol â'r Rhaglen Amlinellol Strategol a phenderfyniadau LIC ac argaeledd buddsoddiad cyfalaf a gymeradwywyd gan LlC.
- Cyflwyno'r strategaeth ariannu i dalu cyfraniad yr awdurdod lleol i gynlluniau cymeradwy LlC a nodi adnoddau i symud Achosion Busnes Amlinellol yn eu blaen.
- Fel rhan o'r ffocws corfforaethol ar gydymffurfio, cryfhau trefniadau landlord/tenant ymhellach trwy sesiynau a dargedwyd i ysgolion ar anghenion cydymffurfio penodol.
- Lleihau nifer y dosbarthiadau â mwy na 30 o ddisgyblion yn CA2.
- Parhau â'r prosesau canoli derbyniadau a throsglwyddiadau.
- Rhesymoli cludiant ymhellach i ddisgyblion AAA yn unol â'r cynllun ariannol tymor canolig.

- Cwblhau ad-drefnu darpariaeth y Gwasanaeth Ieuenctid (fel rhan o waith ailstrwythuro cefnogaeth Atal ac Ymyrryd Cynnar) i gyflwyno blaenoriaethau'r Cynllun PPI 2011-14.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae ymroddiad gwleidyddol, cefnogaeth gref a pherchnogaeth gan randdeiliaid i'r Rhaglen AoS 2020 fel y flaenoriaeth fuddsoddi bennaf i'r awdurdod lleol.
- Mae data ardderchog ar gael i'r holl ysgolion lywio'r broses AoS 2020 a'r Fforwm Rhanddeiliaid ac adolygiad parhaol o'r holl ysgolion.
- Bydd cau'r ail ysgol a gymeradwywyd gan y Cabinet yn rhesymoli nifer yr ysgolion ac yn cefnogi gofynion gweddnewid LIC.
- Cytunwyd ar broses ac mae camau gweithredu ar waith ar gyfer rhyddhau asedau dros ben i ofynion addysgol greu derbynebau cyfalaf ar gyfer y Rhaglen AoS 2020.
- Trefniadau llywodraethu rhaglenni/prosiectau da fel a ddangoswyd gan gyflwyniad llwyddiannus y prosiectau addysg.

Rhwystrau:

- Y gostyngiad mewn arian ar gyfer buddsoddiad cyfalaf gan y Llywodraeth Genedlaethol i Lywodraeth Cymru.
- Diffyg buddsoddiad cyfalaf y gellir ei greu oherwydd y dirywiad economaidd.
- Ansicrwydd effaith cynigion yn y Papur Gwyn ar Safonau a Threfniadaeth Ysgolion.

3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

3.1 Arweinyddiaeth

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae'r weledigaeth a'r blaenoriaethau corfforaethol wedi'u mynegi'n glir trwy raglen strwythuredig o gyfarfodydd, gan roi tryloywder i'r holl randdeiliaid fel bod y rhain yn ysgogi cynllunio gwasanaethau a phennu blaenoriaethau mewn grwpiau partneriaeth ac ym mhob lefel yn yr awdurdod. Mae hyn wedi'i gadarnhau gan y penaethiaid.
- Mae blaenoriaethau a chynlluniau strategol yn cael eu pennu yng nghyd-destun canolbwyntio ar bryderon cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.
- Mae'r cyfrifoldeb o arwain ar bob lefel yn mynd yn fwyfwy agored i'w herio wrth i drefniadau llywodraethu a monitro aeddfedu.
- Mae'r agenda PPI yn magu proffil uwch. Mae gan Gynllun PPI 2011-14 lai o flaenoriaethau sydd wedi'u mynegi'n glir. Mae'r penaethiaid yn cytuno bod perthnasedd cynyddol â blaenoriaethau ysgolion.
- Mae defnydd effeithiol o ddata a dadansoddiad perfformiad ar lefel disgyblion wedi galluogi meysydd a dargedwyd i ddangos gwelliant, canlyniadau a deilliannau da.
- Mae hanes cyson o wella deilliannau dysgwyr er mwyn manteisio i'r eithaf ar eu potensial trwy ffocws clir yr awdurdod ar flaenoriaethau a darparu cefnogaeth effeithiol a her gadarn i unigolion ac ysgolion. Dangosir hyn gan y tueddiadau cadarnhaol parhaol ym mherfformiad ysgolion Abertawe a'r Dangosyddion Perfformiad sy'n ymwneud â gwella ysgolion.
- Mae Rhaglen Amlinellol Strategol Abertawe'n gallu bodloni blaenoriaethau ac anghenion cenedlaethol a lleol trwy ymgysylltiad rhanddeiliaid cadarn, defnydd effeithiol o ddata perfformiad ysgolion, data asedau a ffocws strategol wrth gynllunio darpariaeth.
- Mae gwelliannau gwasanaeth a rhaglenni a phrosiectau strategol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus oherwydd prosesau corfforaethol a chynllunio gwasanaethau clir, cadarn ac aeddfed a threfniadau llywodraethu a monitro'n gorfforaethol ac mewn addysg.
- Mae cefnogaeth gorfforaethol a gwleidyddol ar gyfer cynigion trefniadaeth ysgolion y Rhaglen AoS 2020 yn dangos y gwneir penderfyniadau anodd pan fo'u hangen.
- Mae cynnydd a pherfformiad yn dryloyw oherwydd llunio cynlluniau'n dda a'u monitro'n rheolaidd ac yn drwyadl trwy brosesau corfforaethol. Mae'r prosesau perfformio a monitro ariannol aeddfed ar draws yr holl gyfarwyddiaethau'n sicrhau y gweithredir materion yn briodol ac y mae perfformiad gwasanaethau'n glir.
- Mae prosesau rheoli perfformiad ar draws yr awdurdod ac mewn cyfarwyddiaethau'n sicrhau cadernid cynllunio, pennu targedau a monitro. Mae'r holl staff yn gallu deall eu cyfraniad at gynlluniau strategol, gwasanaeth a lleol a mynegi'r rhain i ysgolion a phartneriaid eraill.

- Mae'r awdurdod wedi cydnabod yr angen i drosglwyddo amrywiaeth o gyfrifoldebau, yn ogystal â'r arian cysylltiedig, i fodloni'r cytundeb cenedlaethol i gynyddu lefel y ddirprwyaeth i ysgolion.
- Mae perchnogaeth a rennir, ymroddiad ar y cyd a mwy o gynllunio a chyflwyno effeithiol yn dangos bod cydweithio'n cynnal ethos yr awdurdod.
- Mae Abertawe'n ymroddedig i ddatblygiad rhanbarthol gwasanaethau gwella ysgolion.
- Mae grwpiau partneriaeth ar waith sy'n sicrhau ymgysylltiad a mewnbwn rheolaidd gan randdeiliaid allweddol yn y prosesau cynllunio a monitro, e.e. grwpiau cynrychioliadol megis Partneriaeth Ddysgu Abertawe, Partneriaeth Gwella Ysgolion, Fforwm Cyllideb Ysgolion, y Grŵp Trawsgyfnod AAA, y Fforwm Rhanddeiliaid AoS 2020 a grwpiau undebau llafur.
- Mae effeithiolrwydd trosolwg a chraffu wedi gwella trwy fabwysiadu trefniadau a newidiwyd a defnyddio set newydd o offer craffu. Roedd adolygiad diweddar o'r trefniadau hyn yn dweud bod cynnydd wedi'i wneud.
- Mae'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol (Partneriaeth Gwell Abertawe) yn effeithiol ac yn rhagweithiol wrth ddatblygu ei flaenoriaethau a nodwyd, gan gynnwys ei ffocws yn y gorffennol ar leihau nifer y bobl NEET a'i ffocws presennol ar Atal ac Ymyrryd Cynnar.

Meysydd i'w Datblygu:

- Culhau'r bwlch rhwng ysgolion sy'n perfformio orau a gwaethaf a gwella deilliannau addysgol i ddisgyblion yn yr ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal.
- Mynd i'r afael ag ymgysylltiad yr holl ysgolion a chadeiryddion llywodraethwyr mewn cyfarfodydd awdurdod lleol allweddol fel bod yr holl ysgolion yn cymryd rhan lawn.
- Parhau i roi'r cynigion yn y cynllun ariannol tymor canolig ar waith.
- Datblygu gallu ysgolion i reoli'r cyfrifoldeb cynyddol sy'n dod gyda mwy o ddirprwyo.
- Datblygu gwasanaeth clercio canolog i'w gynnig i gyrff llywodraethu.
- Gwella cysondeb rheoli perfformiad staff i gyflawni gweledigaeth, nodau ac amcanion yr awdurdod.
- Datblygu trefniadau consortiwm rhanbarthol ymhellach.
- Parhau i roi'r cynllun gweithredu gwella trosolwg a chraffu ar waith er mwyn cryfhau trefniadau trosolwg a chraffu ymhellach.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae Cynllun PPI 2011-14 yn canolbwyntio'n fwy ar yr anghenion yn Abertawe.
- Mae ymroddiad gwleidyddol a rhanddeiliaid i'r Rhaglen AoS 2020.
- Mae Aelodau'n monitro effeithiolrwydd gwasanaethau'n well.
- Mae hanes da o gyflwyno rhaglenni a phrosiectau allweddol yn llwyddiannus ac mewn targedu a chyflwyno gwaith gwella arfaethedig.
- Mae'r awdurdod yn ymroddedig i ddatblygu gwaith partneriaeth a chonsortiwm i gyflwyno gwasanaethau mewn ffordd fwy cost-effeithiol.

- Bydd Aelodau ac uwch-swyddogion yn parhau i adolygu a herio cynllunio ariannol tymor canolig a chyllidebau ysgolion.

Rhwystrau:

- Mae gostyngiadau yn y gyllideb genedlaethol a phwysau parhaol ar gyllideb yr awdurdod lleol yn risgiau i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

3.2 Gwella ansawdd

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae gwelliannau arfaethedig a datblygiadau gwasanaethau wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus trwy brosesau Monitro Perfformiad ac Ariannol (MPA) aeddfed ar draws yr holl gyfarwyddiaethau.
- Mae rhaglenni a phrosiectau corfforaethol allweddol wedi'u cyflwyno'n llwyddiannus trwy drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Rhaglenni Strategol a defnyddio methodoleg gorfforaethol gyson ar gyfer rheoli a monitro.
- Mae perfformiad a deilliannau unedau gwasanaeth yn parhau i wella oherwydd monitro cadarn gan uwch-swyddogion, rheolwyr a Byrddau Trosolwg a Chraffu.
- Mae hanes o gyflwyno gwelliant arfaethedig a gwaith a dargedwyd sy'n dangos gwelliant da a gweithredu ar argymhellion gan reoleiddwyr gan gynnwys Estyn.
- Mae swyddogion yn cael eu cefnogi i fonitro, gwerthuso a herio perfformiad disgyblion ac ysgolion trwy ddarparu proffiliau ysgol a setiau data.
- Mae'r data a'r dadansoddiad a roddir i swyddogion ac ysgolion yn nodweddion neilltuol fel a ddangoswyd gan arweiniad Abertawe ar ddarpariaeth ranbarthol o ddata a dadansoddiad.
- Mae gwelliant parhaol, ynghyd â thueddiadau cadarnhaol cryf data Cymru gyfan, wedi'i gyflawni oherwydd system dryloyw ar gyfer nodi a rhoi cefnogaeth a her i ysgolion yn unol ag anghenion.
- Mae gwaith partneriaeth da i wella ysgolion wedi arwain at gynnwys ysgolion wrth ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau awdurdodau lleol trwy grwpiau fel Partneriaeth Ddysgu Abertawe, CGY, Grŵp Trawsgyfnod AAA, Fforwm Derbyniadau a Fforwm Cyllideb Ysgolion.
- Mae proses gadarn o fonitro cyllidebau gwasanaethau gan swyddogion ac aelodau etholedig.

Meysydd i'w Datblygu:

- Parhau i sefydlu hunanadolygiadau ar draws yr holl wasanaethau cefnogi addysg.
- Culhau'r bwlch rhwng ysgolion sy'n perfformio orau a gwaethaf a gwella deilliannau addysgol disgyblion yn yr ysgolion nad ydynt yn perfformio cystal.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae'r broses cynllunio busnes corfforaethol newydd wedi arwain at gynllunio gwasanaethau ac ariannol mwy gweladwy ac integreiddio'r holl weithgareddau cynllunio.
- Bydd Proffiliau Asesu Bregusrwydd newydd disgyblion yn helpu gwasanaethau ar y cyd i ddarparu cefnogaeth atal ac ymyrryd cynnar lle mae ei hangen fwyaf.
- Mae rhaglen AoS 2020 a chynnwys amrywiaeth eang o randdeiliaid yn dangos yr ymroddiad i wella ysgolion ymhellach ar gyfer y dyfodol.
- Bydd y broses sefydledig sydd wedi llwyddo i gyflwyno cynigion ad-drefnu ysgolion a darpariaeth addysg well, wedi'i blaenoriaethu trwy ein proses randdeiliaid a'i chymeradwyo gan y Cabinet, yn parhau.
- Bydd ysgolion yn parhau i gael eu cynnwys wrth ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â blaenoriaethau'r ALl.
- Mae effeithiolrwydd y Bwrdd Trosolwg a Chraffu wedi gwella trwy ei raglen waith fwy penodol.
- Mae Asesiadau Effaith Cydraddoldeb yn cael eu defnyddio fwyfwy.

Rhwystrau:

- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

3.3 Gwaith partneriaeth

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Mae Strategaeth Gymunedol Abertawe'n rhoi cyfeiriad a blaenoriaethau clir i'r holl bartneriaethau ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Abertawe, o'r enw 'Partneriaeth Gwell Abertawe'.
- Mae aeddfedrwydd 'Partneriaeth Gwell Abertawe' a gwaith partneriaeth cryf Abertawe wedi dylanwadu ar y ffocws clir ar heriau Abertawe a datblygu blaenoriaethau BGLl i wneud gwahaniaeth.
- Mae gweithio ar y cyd yn mynd yn fwyfwy ffurfiol ac yn cynnal ethos yr awdurdod.
- Mae cynnwys penaethiaid wrth ddatblygu polisïau a strategaethau lleol wedi'i sicrhau trwy bum grŵp partneriaeth allweddol. Mae'r grwpiau partneriaeth hyn yn comisiynu'r holl gamau gweithredu, yn goruchwylio'u rhoi ar waith ac yn monitro'r deilliannau.
- Mae anghenion pobl ifanc yn cael eu diwallu trwy gynnig cwricwlwm eang o ddarpariaeth ôl-16 trwy waith partneriaeth lleol sy'n cynnwys y Gymraeg.
- Rhoddir cefnogaeth dda i addysg Gymraeg trwy Bartneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe.
- Mae cytundebau partneriaeth effeithiol ar waith rhwng y gwasanaeth ieuenctid a'r darparwr Cymraeg (Menter Iaith) a Chyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe i ehangu darpariaeth ieuenctid Gymraeg.
- Mae Datganiad o Fwriad ar gyfer Gweithio ar y Cyd rhwng awdurdodau SWAMWAC ar gyfer Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif a chaffael rhanbarthol/gweithio ar y cyd gwell.

- Mae datganiad o waith partneriaeth gyda Chyrff Esgobaethol y Sector a Gynorthwyir.

Meysydd i'w Datblygu:

- Datblygu trefniadau consortiwm rhanbarthol ymhellach a gwneud partneriaethau'n fwy effeithiol.
- Adolygu diben/rôl y BGLl (PGA) yng ngoleuni gofynion cenedlaethol ar gyfer rhesymoli cynllun/partneriaeth a gwaith rhanbarthol yn y dyfodol.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Bydd yr awdurdod yn datblygu gwaith partneriaeth a chonsortiwm ymhellach i gyflwyno gwasanaethau mewn ffordd fwy cost-effeithiol.

Rhwystrau:

- Amserlenni wedi'u gohirio ynglŷn â rhaglen genedlaethol Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.
- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.

3.4 Rheoli adnoddau

Perfformiad - Da

Nodweddion da:

- Cyflwynwyd cyllideb y Gyfarwyddiaeth Addysg yn 2010-11.
- Mae'r prosesau Monitro Perfformiad ac Ariannol (MPA) ar draws yr holl gyfarwyddiaethau, llywodraethu'r Bwrdd Rhaglenni Strategol a monitro rhaglenni a phrosiectau corfforaethol allweddol yn sicrhau rheoli adnoddau da.
- Mae proses gadarn o fonitro cyllidebau gwasanaethau gan swyddogion ac aelodau etholedig - cyflwynwyd y targedau ariannol ac arbedion cyllideb gofynnol ar gyfer addysg yn 2009/10 a chafodd yr effaith ar lefelau gwasanaethau ei rheoli'n effeithiol.
- Mae system gadarn ar waith i herio a chefnogi ysgolion ar ddefnyddio'u harian yn effeithlon a bod yn atebol amdano.
- Mae'r awdurdod yn cymryd rhan mewn prosesau trylwyr mewn perthynas â lefel yr arian a ddirprwyir i ysgolion, yn nirprwyaeth un i un yn gyntaf.
- Mae adnoddau wedi'u rhyddhau trwy'r Rhaglen AoS 2020 i'w hailfuddsoddi mewn ysgolion.
- Mae caffael rhanbarthol/gweithio ar y cyd trwy SWAMWAC wedi'u datblygu.
- Mae llwyddiant parhaol wrth gynnig am adnoddau cyfalaf a chyflwyno prosiectau mawr trwy drefniadau llywodraethu rhaglenni a phrosiectau addysg.
- Mae mentrau arian cyfatebol yn cynorthwyo ysgolion wrth gyflwyno cynlluniau.

Meysydd i'w Datblygu:

- Dirprwyo mwy o arian a chyfrifoldebau i ysgolion fel a gytunwyd yn genedlaethol.
- Parhau i ddatblygu'r blaenoriaethau yn y Rhaglen AoS 2020 pan fydd arian ar gael.

Rhagolygon ar gyfer gwella - Da

Rhagolygon da:

- Mae hanes da ar gyfer cyflwyno'r Rhaglen AoS 2020.
- Bydd yr awdurdod yn datblygu gwaith partneriaeth a chonsortiwm ymhellach i gyflwyno gwasanaethau mewn ffordd fwy cost-effeithiol:

Rhwystrau:

- Mae pwysau cyllideb yn risg i amrywiaeth a lefel y gefnogaeth a roddir i ysgolion.
- Dechrau hwyr Rhaglen Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif.

Rhestr termau yn Lefel 1

Rhestr termau

AAA	Anghenion Addysgol Arbennig
AAABA	Addysg Awyr Agored, Breswyl, Amgylcheddol
ACEY	Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiad
ADC	Anabledd Datblygu Cydsymud
ADY	Anghenion Dysgu Ychwanegol
ALl	Awdurdod Lleol (Cyngor)
ALlICh	Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu
AoS 2020	Addysg o Safon 2020
BGLl	Bwrdd Gwasanaethau Lleol
CA	Cyfnod Allweddol
CA	Cynorthwy-ydd Addysgu
CA	Cyfnod Allweddol
CAA	Cyfleuster Addysgu Arbenigol
CDP	Cymunedau Dysgu Proffesiynol
DPC	Dangosydd Pwnc Craidd
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
EMLAS	Gwasanaeth Iaith a Chyflawniad Lleiafrifoedd Ethnig
EOTAS	Addysg mewn Lleoliad Heblaw yn yr Ysgol
FfAAA	Fforwm Addysg Amgylcheddol Abertawe
FfEY	Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion
FfGC	Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol
GAT	Gwasanaeth Addysg Teithwyr
GLlA	Gwasanaeth Lles Addysg
LlC	Llywodraeth Cymru
MPA	Monitro Perfformiad ac Ariannol
NEET	Pobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant
PACA	Partneriaeth Addysg Gymraeg Abertawe
PDG	Plentyn/Plant sy'n Derbyn Gofal
PGA	Partneriaeth Gwell Abertawe
PGY	Partneriaeth Gwella Ysgolion
PP	Prifysgol y Plant
PPI	Plant a Phobl Ifanc
RhAS	Rhaglen Amlinellol Strategol
SGGYIRh	Strategaeth y Gwasanaeth Gwella Ysgolion Integredig Rhanbarthol
SWAMWAC	Consortiwm De-orllewin a Chanolbarth Cymru
UCD	Uned Cyfeirio Disgyblion
UPOSS	Datgloi Potensial Ysgolion Arbennig